# JONES, JOHN WILLIAM (1827 - 1884), golygydd Y Drych, newyddiadur y Cymry yn U.D.A.

**Enw:** John William Jones
**Dyddiad geni:** 1827
**Dyddiad marw:** 1884
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** golygydd Y Drych, newyddiadur y Cymry yn U.D.A.
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd 11 Ionawr 1827 yn Bryn Bychan, Llanaelhaearn, Sir Gaernarfon. Symudodd gyda'i rieni i Ty'n Llwyn, Llanllyfni, lle bu ei dad yn cadw ysgol. Yn 1845 ymfudodd i U.D.A. gyda mintai o deuluoedd o siroedd Caernarfon a Meirion. Bu yn Racine (Wisconsin) yn gweithio ar ffermydd, yn ymyl Chicago yn gweithio ar gamlas, ac yn Utica (N.Y.) yn gweithio fel saer dodrefn. Cafodd beth addysg yn ysgol Clinton a bu ei hunan yn cadw ysgol rifyddeg. Pan gychwynwyd *Y Drych* yn 1851 dechreuodd ysgrifennu iddo ac, yn niwedd 1852, ar gais J. M. Jones, perchen y papur, aeth i Efrog Newydd i'w olygu, gwaith y parhaodd gydag ef hyd tua chanol y flwyddyn 1884. Methiant fu'r *Drych*, fodd bynnag, hyd yn oed wedi uno'r *Gwyliedydd* ag ef yn 1855, hyd nes y daeth yn feddiant personol i John W. Jones yn 1858. Yn eisteddfod Calan Utica, 1858, enillodd wobr am draethawd ar ddrygedd caethiwed, ac am draethawd ar ddaeareg. Yr oedd yn llenor da, a chanddo wybodaeth gyffredinol eang; yr oedd ganddo hoffter neilltuol tuag at rifyddeg, seryddiaeth, a daeareg. Cyhoeddodd lyfrau: *Rhifyddeg*, *Darllen ac Ysgrifennu*, *Cyfaill y Gweithiwr*, *Hanes Rhyfel America*, *Hanes Rhyfel Crimea*, etc. Bu hefyd yn golygu *Yr Adolygydd Chwarterol* (N.Y.) yn 1852. Ymwelai â Chymru yn fynych. Bu farw 8 Hydref 1884 a chladdwyd ef yng nghladdfa Forest Hill, Utica.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*Y Drych*, 18 Hydref 1856, 2 Ionawr 1858, 7 Mai 1885, 24 Mawrth 1921, 10 Ionawr 1924

*The Cambrian* (Cincinnatti), 1884, 293

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 187358202

Wikidata: Q20733679


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu